







# Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

2022-2023

Adroddiad Blynyddol
Grŵp Cynefin

Croeso

# Croeso Prif Weithredwr

Dyma eich gwahodd i ddarllen ein Adroddiad Blynyddol am 2022-23. Mae'r adroddiad yn adlewyrchiad o'r gwaith diflino sy'n digwydd yn Grŵp Cynefin, a'r bwrlwm o weithgareddau a chynlluniau, pob un ohonynt yn rhoi ein tenantiaid a'n cwsmeriaid yn gyntaf ym mhopeth a wnawn.

Fe wnaethom wynebu heriau gwahanol ar ddiwedd y cyfnod Adroddiad Blynyddol hwn. Yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliodd Grŵp Cynefin adolygiad mewnol o rai rhannau o'n busnes - gan gynnwys o amgylch ein rheolaeth asedau a sut rydym yn cadw cofnodion. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwnaethom benderfynu cyfeirio'n hunain at y rheoleiddiwr tai, gan ei bod yn amlwg bod angen gwella rhai o'n prosesau.



Yn dilyn hyn, cytunodd Grŵp Cynefin i ymrwymiad gwirfoddol. Golyga hyn ein bod wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein staff, ein tîm, ein eiddo a'n diwylliant; yn cyflawni cynllun gweithredu fel y gallwn ni ddangos yn glir ein bod yn cydymffurfio â'r holl reolau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a thu hwnt; a chynnal cyfres o adolygiadau sy'n edrych ar sut y gallwn ni wella'r ffyrdd yr ydym yn gweithio fel busnes.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu pum ffrwd waith, sy'n rhan o'r hyn rydyn ni'n ei alw yn Cynnydd Grŵp Cynefin, sydd rŵan yn elfen o holl waith y grŵp.

Mae'r cynnydd hwnnw i'w weld yn barod.

Mae llawer i'w ddathlu a llawer o lwyddiannau i'w hamlygu. Taflodd argyfwng costau byw her ar ôl her. Daeth a her i ni fel busnes wrth i brisiau godi ac argaeledd deunyddiau adeiladu leihau a daeth hefyd a her fel na welwyd o'r blaen i'n tenantiaid, cwsmeriaid a staff wrth orfod wynebu costau byw cynyddol a chaledi gwirioneddol.

Hoffwn ddiolch yma am waith arbennig ein staff ar draws y grŵp, ein his-gwmniau Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, a Gorwel, sy'n darparu gwasanaethau i atal digartrefedd a cham-drin domestig. Rwy'n llawn edmygedd o'r ymdrech, cydymdeimlad ac empathi gaiff ei ddangos gan ein staff wrth ddelio gyda sefyllfaoedd anodd a heriol ac wrth wneud eu gorau i ddarparu cartrefi, gofal a gwasanaethau o'r safon uchaf.

Hoffwn yma leisio fy niolch i Carys Edwards am ei gwasanaeth i Grŵp Cynefin fel Aelod Bwrdd ac yn fwy diweddar fel Cadeirydd. Diolch hefyd i aelodau eraill sy'n ymadael am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Fel gwelwch yn yr adroddiad, yn ogystal a ffarwelio ag aelodau bwrdd, rydym yn croesau aelodau newydd, a chroeso iddyn nhw.

Bydd egni a dyfalbarhad ein haelodau Bwrdd a'n aelodau staff i gyd yn hollbwysig ar y daith hon o gynnydd ac adferiad a fydd yn dod a ni fel grŵp i le cryf a chadarn unwaith eto.

Diolch i bawb am eu gwaith diflino.

**Mel Evans**
**Prif Weithredwr Dros Dro**

## Gair olaf o'r Gadair

Dyma ddod i ddiwedd fy nghyfnod tair blynedd fel Cadeirydd Grŵp Cynefin. A minnau wedi bod yn Aelod Bwrdd cyn hyn am chwe mlynedd, yn unol a'n rheolau Cofrestredig, golyga hyn fod fy nghyfnod gyda Grŵp Cynefin wedi dod i ben.



Un gair sydd gen i ddisgrifio cymryd y Gadair, sef braint. Braint o wasanaethu ac arwain cymdeithas dai egwyddorol sy'n rhoi lles ei thenantiaid a chwsmeriaid wrth galon ei holl weithgareddau. Cymdeithas sy'n gweithredu ei harwyddair, Mwy Na Thai.

O safbwynt personol, bu'r naw mlynedd ddiwethaf yn gyfnod o ddatblygiad, o ddysgu ac ehangu gorwelion mewn maes hollol newydd i mi ac mae hynny wedi bod yn bleser pur. Bu hefyd yn bleser cydweithio gydag aelodau'r Bwrdd dros y blynyddoedd, oll o gefndiroedd a phrofiadau mor wahanol a diddorol, a staff Grŵp Cynefin, sy'n rhoi o'u gorau er lles tenantiaid, cwsmeriaid a chydweithwyr fel ei gilydd. Diolch am y cyd-weithio rhwydd.

Yn naturiol, mae'n debyg mai'r flwyddyn olaf hon fu'n fwyaf arwyddocaol o'r cyfnod cyfan.

Dyma gyfnod heriol iawn yn hanes y grŵp - cyfnod o newid, o adnabod a derbyn gwendidau, o greu gwelliannau ac o gryfhau yn sylweddol fel tîm i sicrhau adferiad a thwf Grŵp Cynefin.

Ac mae hynny yn llwyddo. Gam wrth gam, mae'r Gymdeithas yn sefydlogi ac yn mynd o nerth i nerth. Mae gwaith eto i'w gyflawni ond mae ymrwymiad ac ewyllys pendant i wneud hynny.

Gyda dyfodiad Cadeirydd a rhai aelodau Bwrdd newydd, dymunaf bob llwyddiant i Grŵp Cynefin i'r dyfodol gan ddiolch yn fawr i'r staff, i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd ac i'r tenantiaid a chwsmeriaid oll am bob cefnogaeth.

Yn bennaf oll, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Elen Williams, is-Gadeirydd Grŵp Cynefin sydd hefyd yn ymadael, am ei gwaith cydwybodol a diwyd ac am fod yn gymaint o gefn i mi yn bersonol.

Gan ddymuno'r gorau i Grŵp Cynefin.

Yn ddiffuant,

**Carys Edwards**
**Cadeirydd**

## Gwobrau

**Roedd hi'n flwyddyn wych i Grŵp Cynefin gyda chydnabyddiaeth a chadarnhad o wasanaethau allanol a mewnol a gwaith caled staff.**



- **Gwobrau Tai Cymru** – Llwyddodd y Tîm Tai i ddod i'r brig ac ennill gwobr Tîm Tai y flwyddyn yng Ngwobrau 'Welsh Housing Awards' ym mis Tachwedd.



- **Gwobrau Rhwydwaith Adnoddau Dynol Cymru** – daeth ein hadran Adnoddau Dynol i restr fer am y Strategaeth Llesiant orau a dod i'r brig gan ennill y wobr am y Defnydd Gorau o'r Iaith Gymraeg.




- **Gwobrau TPAS Cymru** – Bu'r Tîm Mentrau Cymunedol yn llwyddiannus yng Ngwobrau TPAS Cymru gan gael ail am y prosiect Camau i Gyflogaeth a thrydydd am Ymgynghoriad Polisi Rhent Cymdeithasol.

## Archrediadau

Rydyn ni yn parhau i gael cydnabyddiaeth am ein gwasanaeth cwsmer o safon. Eleni mae Grŵp Cynefin nid yn unig wedi cynnal ein hachrediad rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmer ond wedi gwella arno gyda 4 'compliance plus' ychwanegol. Mae Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE) yn safon a gydnabyddir yn genedlaethol a gynlluniwyd i ysgogi newid sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.


# Mwy na thai




Cyfarfodydd Tenantiaid: **38**

Sesiynau digidol:

**27** tenant wedi derbyn cefnogaeth





Cystadleuaeth Garddio:
**22** wedi cymryd rhan

Grant Cymunedol: **30** cais – Gwobrwyo £7,970.71 i 27 grŵp

*"Cafodd y grant effaith sylweddol ar ein grŵp ac mae nifer yr aelodau wedi codi tua 30% a llwyddwyd i berswadio 5 aelod newydd i ymuno â'r pwyllgor llywio, nifer ohonynt yn bobl ifanc lleol."*

Cyfeillion Eglwys Llandegwning, ger Pwllheli

Cydweithio: gyda **120** o bartneriaid

Grantiau i fewn i gefnogi cymunedau: £1,038,290




Gwibdaith:

Ymweld â **66** stad,

Siarad gyda **262** tenant



## Sesiynau Tai Gofal Ychwanegol

- 232 sesiwn (gan gynnwys sesiynau digidol, crefft, hanes, ysgrifennu creadigol, ymarfer corff, ymwybyddiaeth ofalgar, yoga, grŵp offerynnol Ensemble Cymru, canu a cherddoriaeth, pontio’r cenedlaethau a fforwm pobl hŷn)



## Hyfforddiant a Chyflogaeth

- 35 ymholiad gan denantiaid Grŵp Cynefin
- Cefnogwyd 12 tenant, 6 wedi derbyn swydd, 5 wedi aros mewn gwaith, 1 wedi cychwyn menter hunan gyflogaeth
- Cefnogi 20 cais Camau i Gyflogaeth - £4,813.84
- 21 tenant wedi cofrestru ar gyrsiau ar-lein

## Byw yn Annibynnol

- Sesiynau cefnogi 1:1 – 168
- Sesiynau grŵp – 38
- Sesiwn Lles gyda Youth Shedz – 7 (25 o bobl ifanc)
- Sesiwn galw mewn gyda Coleg Llandrillo – 18
- Sesiwn addysgiadol – 6 (125 o bobl ifanc)
- Sesiwn Tai a Digartrefedd – 8 sesiwn (3 grŵp ysgol)
- Sesiwn cyllidebu – 27

## Wardeiniaid Ynni

- Ymholiad – 488
- Partneriaid – 4
- Ceisiadau Warm Home Discount – 1104 (arbedion o £165,600)
- Arbedion ychwanegol – £16,674




## eCymru

Mae Grŵp Cynefin wedi bod yn gweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill a thenantiaid ledled Cymru i eCymru, porth tai sy’n cysylltu cymunedau Cymru. Mae’n cynnig mynediad i ddigwyddiadau a chyfleoedd ymgysylltu a dysgu’n electronig a fedr helpu tenantiaid i fyw bywydau hapusach ac iachach.

Gwnaeth pandemig COVID-19 ysgogi cydweithredu ar draws Cymru i gynnig profiad digidol newydd i denantiaid. Crewyd eCymru gan wybodaeth, sgiliau a phrofiadau unigolion o bob rhan o Gymru, i sicrhau bod y porth yn ateb anghenion amrywiol y cymunedau mae’n eu gwasanaethu ac i’w wneud yn hawdd i ddysgwyr ei ddefnyddio.

# Asedau Cymunedol



## y shed

### 4 uned busnes gyfredol

- Rough Edge Bakehouse - Micro-Fecws
- Lorna Hicks - Podiatreg
- Trainer Container - Cyflenwr esgidiau rhedeg a dillad chwaraeon
- Caffi Tu Mundo

Marchnad grefftau misol ddechrau Rhagfyr 2022 – 12 crefftwr gwahanol



## Congl Meinciau

- Defnydd desg boeth – 115
- Cymorth digidol – 209
- Gwersi coginio – 38
- Gweithgareddau i blant – 140
- Cyngor a Chymorth tlodi tanwydd – 36
- Presgripsiynau Cymdeithasol a Croeso Cynnes – 282
- Ymholiadau busnes – 40
- Cymorth ariannol i fusnesau lleol – £19,000
- Grantiau i'r ganolfan – £68 ,000

## HWB Dinbych

- Coleg Llandrillo – 243 o fyfyrwyr. 31 cwrs.
- Youth Shedz – 12 yn mynychu
- Prosiect Ieuenctid Dinbych – Grŵp Rhieni a Phlant Bach 8 rhiant yn mynychu
- Gwasanaeth Ieuenctid Dinbych – 60 person ifanc yn mynychu Sesiynau Clwb Ieuenctid
- 2 ddiwrnod cyflogaeth – 18 yn mynychu
- Sesiynau cerddoriaeth – 9 yn mynychu
- Prosiect bwyd – 30 sesiwn coginio
- Sesiynau pryd poeth – 20 yn mynychu a chael pryd poeth
- Dosbarthu 8 parsel bwyd yr wythnos
- Dosbarthu 200 blanced
- Dosbarthu 40 pecyn glendid
- Derbyn cefnogaeth digidol 1:1 – 10
- Presgripsiwn cymdeithasol – 46 sesiwn grŵp cerdded, sesiynau arlunio, gwnio, celf, a sesiwn cefnogaeth grŵp gyda chwnselydd
- Clybiau Gwaith wythnosol

### Prosiect Cam Ymlaen

- Rhoi pobol ifanc ar lwybr i waith
  - 24 person ifanc wedi derbyn cefnogaeth
  - 12 wedi cofrestru ar gyfer addysg
  - 7 wedi derbyn cymhwyster
  - 8 wedi cael gwaith
  - 1 wedi dechrau rôl gwirfoddol
  - 20 sesiwn cwnsela 1:1









# Cyfathrebu

## Brandio

I gyd-fynd â lansiad ein gwefan newydd, ehangwyd ein cynllun brandio gan gyflwyno pum lliw newydd i'r glas a llwyd sefydledig. Roedd yn bwysig i ni gadw elfennau'r prif frand sydd mor nodweddiadol a chyfarwydd erbyn hyn, ond mae ychwanegu lliwiau eraill wedi ein galluogi i roi hunaniaeth i wahanol adrannau a mwy o ryddid wrth ddylunio'n deunydd marchnata.







## Blwyddiadur

Cynhyrchwyd blwyddiadur wal i denantiaid ar gyfer 2023 yn hytrach na'r calendr arferol. Mae'r blwyddiadur yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol, cyngor a thips yn ogystal a digon o le i nodi digwyddiadau personol. Cafwyd ymateb da gan denantiaid, mae'n adnodd defnyddiol a golygodd arbediad sylweddol... Ymarfer sydd wedi talu ar ei ganfed felly!

## Tyfu'r tîm

Penodwyd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata Digidol i'r tîm ym mis Ebrill 2022 sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i allbwn yr uned gyfathrebu. Rydym wedi ehangu ein defnydd o farchnata digidol ers tyfu'r tîm gan greu fideos llawn gwybodaeth, deunydd marchnata gweledol ac wedi'i animeiddio, taflenni trawiadol, agor cyfrif Instagram newydd a llawer iawn mwy.

## Calon




Wedi trafod yn fewnol, ymgynghori gyda thenantiaid a derbyn gwybodaeth trwy TPAS Cymru, penderfynwyd newid y ffordd rydyn ni yn cyflwyno ein cylchgrawn tenantiaid, Calon.

O 2022 ymlaen, dau rifyn 'traddodiadol' sy'n cael eu cynhyrchu, wedi eu cyflwyno yn bennaf yn ddigidol ar ein gwefan gan rannu'r ddolen yn eang gyda thenantiaid ac yn ehangach. Mae hyn wedi ein galluogi i greu mwy o ddeunydd ar amrywiol blatfformau yn gyson i ymateb i anghenion amserol ein tenantiaid a chwsmeriaid yn hytrach na chreu un adnodd swmpus.

Mae ymateb gwych wedi bod i'r ffordd fwy bywiog a deinamig hon o gyflwyno cyngor, gwybodaeth ac adnoddau i'n tenantiaid, gyda phob rhifyn wedi derbyn stamp sêl bendith ein tenantiaid.

# Corfforaethol

## Eisteddfod yr Urdd Dinbych 2022

Bu Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn un hynod llwyddiannus i ni fel grŵp. Bu'n gyfle heb ei ail i ledaenu'r neges am yr hyn rydyn ni yn ei wneud fel grŵp a meithrin perthnasau newydd a dal i fyny gyda phartneriaid amrywiol.

Bu bwrlwm arbennig o gylch yr uned, gyda'r bws y tu allan a Cefyn Cynefin yn dangos ei wyneb bob hyn a hyn i ddiddanu'r plant.

Ambell uchafbwynt oedd trafodaeth ar y sefyllfa dai gyda phanel oedd yn cynnwys Mabon ap Gwynfor AS, ein Prif Weithredwr a'n Cadeirydd, sesiwn Ukulele lle cafwyd llond uned hwyliog o blant yn dysgu chwarae'r Ukulele a sesiwn peintio mainc ar thema arwyr lleol fel rhan o gynllun Meinciau Cyfeillgar Dinbych.

**Dros 15,000!! Y nifer ddaeth am sgwrs, cyngor, gwybodaeth a chymryd rhan ar yr uned!**











**1523 Faint o baneidiau wnaeth staff prysur Grŵp Cynefin yn ystod yr wythnos!**

**1720 Faint o fisgedi wnaethoch chi fwyta yn ein uned!**

**219 Faint ohonoch chi wnaeth lenwi holiadur i geisio ennill barbeciw**

**179,151 Y nifer o gamau wnaeth Hawys ein Swyddog Cyfathrebu yn ystod y cyfnod!**

**27 Y nifer o staff Grŵp Cynefin wnaeth helpu yn ystod yr wythnos**

**ENFAWR! Maint ein diolch i'r Urdd, ein staff, ymwelwyr, a phobol a phlant Sir Ddinbych am y croeso anhygoel!**

## Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant

Parhaodd y grŵp Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant i gyfarfod yn rheolaidd gydol y flwyddyn, gyda'r brif amcan o lunio strategaeth ddrafft i gael ei chymeradwyo a'i rhoi ar waith.

Adlewyrchiad o ba mor bwysig yw'r agenda hon i Grŵp Cynefin yw'r ffaith bod y grŵp yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, gyda chynrychiolaeth o aelodau staff ar draws holl adrannau Grŵp Cynefin, y Bwrdd Rheoli a chynrychiolaeth tenantiaid.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyfrifoldeb, dyletswydd a her i bawb, boed yn denant, cwsmer, yn gyflogai, yn aelod Bwrdd neu'n unrhyw berson neu sefydliad arall sy'n darparu gwasanaethau i'r grŵp. Byddwn yn rhoi ein strategaeth ar waith am y flwyddyn i ddod.

## TALU YMLAEN

Mae ein holl aelodau staff yn cael hanner diwrnod gwaith y flwyddyn i gefnogi digwyddiad er lles eu cymuned, o godi sbwriel i drefnu Eisteddfod leol.

## CEFNOGI ELUSEN

Mae staff Grŵp Cynefin yn pleidleisio dros elusen i'w chefnogi'n flynyddol ac eleni Ambiwlans Awyr Cymru ddaeth i'r brig.

## CYNLLUN IECHYD

Mae'r cwmni'n cyfrannu at gynllun arian parod iechyd staff sy'n cynnwys ad-dalu costau deintyddol, presgripsiynau llygaid, ymgynghoriadau meddygol a chyngor iechyd.

**Iechyd da**

Cynllun llesiant staff Grŵp Cynefin

Westfield Health

## CYMDEITHASU!

Mae dyddiadur o ddigwyddiadau wedi eu trefnu dros y flwyddyn tu allan i oriau gwaith megis taith gerdded, cwis, helfa drysor, taith beics, gemau rownders a mwy.

## CYFARFODYDD CERDDED

Anogir pob tîm i fynd am o leiaf un cyfarfod cerdded y mis. Cyfle i drafod gwaith yn yr awyr iach, cael hoe o'r ddesg ac egni newydd i syniadau a chorff.

## CADW'N HEINI

Aelodaeth campfa neu gyfleuster hamdden lleol am bris gostyngedig.

*"Roedd o mor hawdd i'w ddefnyddio, cwbl roedd rhaid gwneud oedd uwchlwytho llun o'r daleb ac roedd yr arian yn y banc o fewn chydig ddyddiau! Cynllun gwych i staff Grŵp Cynefin!"*

*"Dwi'n teimlo lwcus iawn bod Grŵp Cynefin yn cynnig y cynllun yma i staff. Rwyf wedi ei ddefnyddio ar gyfer apwyntiadau personol a meddygol ac mae'n help mawr hefo costau byw ar hyn o bryd ein bod yn cael arian yn ôl – diolch, dwi'n ddiolchgar iawn.*"

*"Roedd cael cyfarfod yn yr awyr agored yn gyfle braf i drafod ein gwaith achos mewn ffordd hamddenol ac effeithiol. Roedd yn gyfle da i greu perthynas well efo'n cydweithwyr a hynny heb ddesg na thechnoleg!"*





## Gweithio Hyblyg

Gyda staff yn dal i addasu i drefn waith yn dilyn y newid mawr ar ôl Covid, mabwysiadodd Grŵp Cynefin weithio hyblyg fel trefn waith ar draws y grŵp. Bellach, lle mae'n ymarferol, disgwylir i staff weithio o swyddfa gyfartaledd o ddau ddiwrnod mewn wythnos waith. Credir bod hwn yn gydbwysedd teg i gadw mewn cysylltiad gyda chyfoedion a chydweithwyr yn ogystal â chynorthwyo staff i ddod o hyd i gydbwysedd rhwng bywyd gwaith a bywyd cartref neu deuluol.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus ym Mharc busnes M-Sparc mis Medi 2022 lle rhannwyd ein Hadroddiad Blynyddol am 2021-22.

Y gŵr gwadd oedd Dr Steffan Evans o Sefydliad Bevan a roddodd gyflwyniad ar her y gaeaf caled oedd i ddod o safbwynt yr argyfwng costau byw.

Cyflwynwyd yr adroddiad yn ddigidol yn unig am y tro cyntaf.

# Tai




## Deddf Rhentu Newydd

Daeth un o'r newidiadau mwyaf i'r maes tai yn Rhagfyr 2022 wrth i Lywodraeth Cymru ddod a Deddf Rhentu Cartrefi Cymru i rym. Tenantiaid sydd wrth galon y ddeddf, sydd wedi ei llunio i'w gwarchod a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu trin yn deg.

Un elfen o'r ddeddf ydi bod cytundebau tenantiaeth yn cael eu galw yn gontract meddiannaeth, a derbyniodd holl denantiaid Grŵp Cynefin gontractau newydd. Mae'r ddeddf newydd yn nodi mai deiliaid contract yw'r term y dylid ei ddefnyddio am denantiaid. Ymgynghorodd Grŵp Cynefin gyda'r tenantiaid am hyn, a'r farn gafodd ei chyfleu oedd bod y tenantiaid am barhau i gael eu galw yn denantiaid.

Roedd yn gyfle yn ogystal i wirio a diweddaru manylion ein tenantiaid – pethau fel manylion cyswllt, manylion trigolion y cartref ac annog ein tenantiaid i ddarparu cyfeiriad e-bost.

**Gweithio gyda'n gilydd**
**i roi cartref diogel i bawb**

## Cynnydd Rhent


Cyflwynwyd papur trafod i Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin ar 21 Tachwedd, 2022, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar yr uchafswm y gall Cymdeithasau Tai Cymru gynyddu eu rhent am y flwyddyn 23/24.

Bu gweithgor pellach o'r Bwrdd Rheoli ar 5 Rhagfyr 2022, gyda Chyflwyniad ac Ymgynghoriad gyda grŵp tenantiaid yn Rhagfyr 2022. Yno, nododd y tenant gynrychiolwyr bod y cynnydd yn un sylweddol ond yn llai na chwyddiant. Er mwyn sicrhau bod y grŵp yn gallu parhau i fuddsoddi yn ein tai, roeddent yn fodlon argymell cynnydd o 6.5 %.

Cafodd yr argymhelliad ei gyflwyno a'i dderbyn gan y Pwyllgor Cyllid a Thwf ar 12 Rhagfyr 2022, ynghyd a Phwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau ar y 14 Rhagfyr 2022 ar y dealltwriaeth ein bod yn esbonio sut rydym wedi dod i'r penderfyniad a sut mae'r incwm rhent yn cael ei wario.

Cymeradwywyd y cynnydd gan y Bwrdd Rheoli ar 19 Rhagfyr 2022.

Darparwyd pecyn cynhwysfawr yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd yn egluro sut gwariwn ni yr arian rhent (isod).




## Arolwg bodlonrwydd tenantiaid




Anogwyd ein holl denantiaid i gwblhau arolwg bodlonrwydd yn 2022, i roi barn ar ein gwasanaethau. Roedd y canlyniadau yn rhai calonogol iawn o ystyried bod arolwg cenedlaethol diweddar wedi adrodd ar anfodlonrwydd uchel yn gyffredinol ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol.

Adroddodd 87 % eu bod ar y cyfan yn fodlon gyda gwasanaethau Grŵp Cynefin, 83.2 % eu bod yn fodlon ar safon cyffredinol eu cartref a 89 % yn fodlon bod rhent yn darparu gwerth am arian. Adroddodd 84 % hefyd eu bod yn ymddiried yn Grŵp Cynefin fel landlord.

# Yma i chi - Argyfwng Costau Byw

## Croeso Cynnes




Neidiodd Grŵp Cynefin ar y cyfle i ddod yn rhan o gynllun Croeso Cynnes. Bu cydweithio gwych ac effeithiol rhwng partneriaid ar draws Gogledd Cymru wrth geisio cynnig mannau cynnes am ddim, gweithgareddau a phrydau bwyd i deuluoedd a phobl fregus ar draws ein cymunedau wrth i gostau ynni a chostau byw gynyddu fel na welwyd o'r blaen..

Gyda thros 200 o leoliadau ar fap Croeso Cynnes, agorodd HWB Dinbych, Congl Meinciau, Botwnnog a'r Orsaf ym Mhenygroes eu drysau i'r cyhoedd gan gynnig lle saff a chynnes dros fisoedd y gaeaf.




## Pecynnau Hylendid a Blancedi Cynnes

Dosbarthwyd 50 pecyn hylendid a dros 200 blanced i bobl yn y gymuned.


## Cwrs Cyllido

24 tenant wedi bod ar gwrs Cyllido a ddarparwyd gan y DWP.

## Cynllun Popty Araf

Fel rhan o'n cymorth Costau Byw 'Yma i Chi', dosbarthwyd dros 100 popty araf (slow cooker) i'n tenantiaid – er mwyn helpu gyda chostau ynni, lle mae posib arbed bron i £200 y flwyddyn wrth ddefnyddio popty araf yn hytrach na phopty arferol.




## Adran Costau Byw

Mae adran arbennig Costau Byw ar ein gwefan sy'n cynnig adnoddau i helpu ein tenantiaid drwy'r cyfnod argyfwng costau byw. Mae'n llawn cyngor, tips a gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys linciau am gymorth ariannol, help gyda chostau ynni, sut i gymryd gofal o iechyd meddwl, gwybodaeth am fanciau bwyd, ryseitiau cost isel, cyfeirio at lefydd eraill lle mae help ar gael a chymaint mwy...




## Yma i Chi – Cylchlythyr tenantiaid

Cynhyrchwyd rhifyn arbennig o gylchgrawn cefnogi tenantiaid a chwsmeriaid Grŵp Cynefin trwy'r argyfwng costau byw – Yma i Chi.

Roedd yn llawn tips, cyngor a chymorth ariannol, ynni, bwyd, llesiant, cartref a manylion cyswllt defnyddiol.




**"Wedi gwirioni, erioed di cael slow cooker or blaen, dwi'n edrych mlaen i'w ddefnyddio"**

**"Edrych ymlaen i ddechrau defnyddio fo, rhoi bwyd i fewn yn y bore cyn mynd i gwaith a cael bwyd yn barod ar ôl dod adre o'r gwaith"**




**"Yn ddiolchgar iawn ac yn edrych ymlaen i'w defnyddio – yn dilyn tudalen slow cooker ar Facebook ac yn falch o fedru gwireddu rhai o'r ryseitiau"**

# Addunedu i ddyfodol gwyrdd

Yn 2022 gwnaeth Grŵp Cynefin adduned i leihau allyriadau carbon o 4 % bob blwyddyn hyd at gyflawni sero net* erbyn y flwyddyn 2044.

Fe gyhoeddon ni hyn ar ddiwrnod cynta' Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych 2022, gyda diwrnod cyfan o weithgareddau 'gwyrdd' ar ein huned ar y maes.

Bu plant yn plannu llysiau a pherlysiau, arddangosfa coginio gyda chynhwysion lleol, rhad a wardeiniaid ynni'r grŵp ar gael i gynghori pobl ynglŷn a sut i arbed ynni ac arian trwy newidiadau bach o gwmpas y tŷ.

Roedd y rhain i gyd yn cyd-fynd gyda'r adduned sy'n rhan o strategaeth cynaliadwyedd newydd Grŵp Cynefin.

## Mae'r strategaeth hefyd yn anelu i gyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno goleuadau LED a mesuryddion clyfar
- Datblygu cynllun 'ôl-osod' ar gyfer ein cartrefi presennol
- Buddsoddi mewn sgiliau a llythrennedd carbon i staff a chwsmeriaid
- Datblygu ein rhaglen Wardeiniaid Ynni i gynorthwyo a chynghori tenantiaid ar y daith i sero net
- Polisi gweithio hyblyg i gwtogi ar filltiroedd staff ac allyriadau yn y gweithle
- Ceisio gosod ynni adnewyddadwy ar-safle yn ein swyddfeydd a safleoedd gweithredu eraill
- Adeiladu cartrefi newydd i safon carbon isel neu ddi-garbon
- Lleihau allyriadau fflyd drwy newid i gerbydau allyriadau isel neu ddim allyriadau o gwbl

$CO_2$

## Tamprwydd a Llwydni

Yn dilyn marwolaeth drist Awaab Ishak o ganlyniad i fyw gyda llwydni yn ei gartref, daeth chwyddwydr ar y sector dai yn edrych ar sut mae cymdeithasau tai yn rheoli polisïau, ymarfer da, systemau a chyngor ar lwydni a thamprwydd yn eu heiddo.

Y peth blaenllaw ym meddyliau Grŵp Cynefin oedd codi ymwybyddiaeth o berygl tamprwydd a llwydni, rhoi cyngor ar sut i ddelio ag o, sut i atal y broblem a'i gwneud hi mor rhwydd a phosib i denantiaid adrodd ar damprwydd a llwydni. Gyda rhan benodol o'r wefan ble mae posib adrodd ar unrhyw damprwydd a llwydni yn y cartref, taflenni gwybodaeth, fideo, sylw ar y cyfryngau cymdeithasol, Calon - ein cylchgrawn tenantiaid, roedd y pwyslais ar rannu gwybodaeth mewn ffordd ddeniadol a hawdd i'w deall.



# Ein his-gwmniau

Yn ystod y flwyddyn 2022-23 cafodd 3,530 o bobl gymorth i addasu, trwsio neu wella eu cartref.




## Canllaw

Mae Canllaw yn darparu gwasanaethau tai ac atebion ymarferol i anghenion tai pobl hŷn neu bobl fregus lleol ar draws siroedd Gwynedd a Môn.

Mae tair rhan i'r cwmni. Bu i ni ail-frandio ein gwasanaeth ymarferol o dan yr enw Canllaw Addasu, a'r gwasanaeth technegol fel Canllaw Technegol.

**Gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl 60 oed a hŷn i'w cynghori a'u cefnogi i gynnal, gwella neu addasu eu cartrefi. Yn benodol yn y sector breifat, ac wedi ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru.**

**Gwasanaeth proffesiynol i ddylunio, cynllunio, archwilio a goruchwylio gwaith adeiladu, boed fawr neu fach, ar gyfer cleientiaid hŷn neu fregus.**

**Gwasanaeth masnachol i wneud addasiadau priodol yng nghartrefi pobl hŷn neu fregus, er mwyn cynnal eu eu hannibyniaeth.**

www.canllaw.org

# Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hŷn

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Care & Repair

Yn y flwyddyn 22-23 cafodd 5,600 o bobol gymorth i addasu eu cartrefi

## Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu perchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi i'w galluogi i fyw yn annibynnol, yn gysurus, cynnes a diogel.

Darperir cyngor ynglŷn â:

- budd-daliadau lles
- gwresogi
- addasiadau
- cynnal a chadw ac atgyweirio




"Yn ymdopi'n llawer gwell. Mae'r rheiliau o gymorth mawr. Roedd y gweithiwr yn daclus iawn."

"Roeddwn yn fodlon iawn gyda'r holl wasanaeth gan Gofal a Thrwsio yn cynnwys yr ymateb buan, safon y gwasanaeth ar gwasanaeth cwsmer."

"Roeddwn yn methu credu mor glen oedd pawb. Mae'n anodd cael cymorth pan yn berchen eich cartref eich hun."

"Wedi cael y fraint o weithio fel nyrs mae'n codi fy nghalon i wybod bod unigolion yn parhau yn y proffesiwn sy'n fodlon mynd y filltir ychwanegol i sicrhau ansawdd bywyd i bobl fel fi."

"Hollol wych, rwyf mor hapus! Mae'r tapiau o gymorth mawr i fy nghryd cymalau."

Ffoniwch ni ar 0300 111 2120

**340** Nifer y cyfeiriadau Ymdopi'n Well yn cefnogi pobl â nam golwg neu glyw

Nifer o bobl rydym wedi eu helpu **1,933**

997 Cyfanswm gwaith addasiadau a gwblhawyd ac eithrio gwaith addasiadau brys

Dywedodd **96%** o gleientlaid eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio

**289** Cyfanswm nifer o Wiriadau Cartrefi Iach

**1277** Nifer o bobl a gafodd gymorth gyda'r grant Rhaglen Addasiadau Brys i addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol

Rydym wedi hwyluso gwaith trwsio ac addasiadau preifat gwerth £357,712

£1,098,885

Helpu 282 o bobl i gynyddu eu hincwm a oedd werth £1,098,885 y flwyddyn

**484** Nifer y cyfeiriadau Ysbyty i'r Cartref a dderbyniwyd. Roedd 380 ohonynt yn addasiadau i alluogi rhyddhad diogel o'r ysbyty a arweiniodd at arbediad o 2,280 o ddyddiau gwlau

**98%** o glientiaid yn fodlon iawn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

Am bob £1 a wariwyd ar y Rhaglen Addasiadau Brys, arbedwyd £7.50 ar gyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol **£7.50** **£1**

**58%** Fe wnaethom helpu 58% o bobl gyda gwaith i geisio lleihau codymau

**41** Cyfanswm addasiadau ystafelloedd ymolchi a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd

**79** Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

**98%** a fyddai'n argymell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill

**246** Nifer y gwaith preifat a a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd gwerth £357,712

**15 diwrnod** Ar gyfartaledd, caiff gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys ei gyflawni o fewn

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

cefnogaeth a mwy • support and more

# Gorwel

Uchafbwynt y flwyddyn i Gorwel oedd llwyddo i dderbyn achrediad cenedlaethol, SafeLives 'Leading Lights' ar gyfer darpariaeth ymgynghorwyr annibynnol cam-drin domestig (IDVA) sydd yn ymateb i gyfeiriadau risg uchel o gamdriniaeth domestig. Mae'n rhaglen achredu sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo ymarfer da a diogel. Mae derbyn yr achrediad yn cydnabod bod y ddarpariaeth yn cyrraedd 23 o safonau sydd wedi crynhoi mewn pedwar prif faes;

- Llywodraethu
- Adnoddau Dynol
- Gwaith aml-asiantaeth
- Darparu gwasanaeth

2023 LeadingLight

Three year accreditation by SafeLives

## Recriwtio

Mae heriau recriwtio wedi bod yn fater sydd wedi derbyn blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, gyda mudiadau ledled Cymru yn gweld effaith methu llenwi swyddi yn y maes cefnogi. Er mwyn ymateb i'r her aeth Gorwel ati i gynnal dull holistig o ddenu ymgeiswyr i weithio yn y maes. Cynhaliwyd dau ddiwrnod recriwtio yn ystod y flwyddyn gyda chyfle i ymgeiswyr dreulio'r bore yn dysgu mwy am yr uned, ac yna'n cael eu cyfweld yn y prynhawn – penodwyd 16 o gydweithwyr newydd yn dilyn y broses lwyddiannus.






## Newid Gyrfa. Newid Bywydau

Yn parhau â themâu recriwtio, dewiswyd Gorwel a dau ddarparwr arall drwy Gymru i gymryd rhan yn ymgyrch Cymorth Cymru a Llywodraeth Cymru "Newid Gyrfa. Newid Bywydau", ymgyrch er mwyn denu pobl i weithio yn y maes cefnogi. Roedd cael eu dewis i gymryd rhan yn yr ymgyrch hon yn gadarnhad o enw da Gorwel yn y maes cefnogi'n genedlaethol. Yn y fideo mae Harri Morris ac Owain Jones, sy'n weithwyr cefnogi yn sôn am eu gwaith. Yn amlwg mae angerdd y ddau tuag at waith yn y maes digartrefedd a Gorwel yn cael ei amlinellu yn y ffilm fer. Bellach mae'r fideo wedi cael eu defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol ledled Cymru er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch.

**Harri and Owain - Working for Gorwel (English subtitles) - YouTube**


# Darpariaeth Pobl Hŷn Ynys Môn

Yn dilyn ennill tendr, lansiwyd darpariaeth pobl hŷn, Ynys Môn ar 1 Hydref 2022, sef Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chomisiynu gan Gyngor Ynys Môn, a'i ddarparu gan Gorwel. Mae'n darparu cefnogaeth ddwyieithog saith diwrnod yr wythnos i bobl 55 oed a throsodd sy'n wynebu heriau gyda'u trefniadau byw neu sy'n profi problemau a allai achosi iddynt ddod yn ddigartref pe na baent yn cael eu datrys. Dywedodd Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru

*"Rydw i wrth fy modd o weld y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i bobl Ynys Môn gan Gorwel. Dylai pobl hŷn deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn rhan o'u cymuned leol. Dyma'r union fath o ddull ataliol yr ydym yn canolbwyntio arno, fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd."*

Mae'r argyfwng costau byw wedi bod yn hynod heriol yn ystod y flwyddyn, er hynny mae tîm Gorwel wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o safon – mae angen diolch i'w holl gydweithwyr am eu hymroddiad diddiwedd.

**Yn ystod ymgynghoriad annibynnol, gofynnwyd i bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth raddio eu profiad o Gorwel ar raddfa o 1 i 5, gyda 5 yn uchaf.**




# *Bethan – Astudiaeth Achos IDVA

*(Pob enw wedi ei newid i warchod cyfrinachedd)



### Sut daethoch chi i gyswllt â Gorwel yn y lle cyntaf?

Roeddwn i wedi clywed am Gorwel o'r blaen ond rhoddodd yr heddlu fi mewn cysylltiad â nhw oherwydd digwyddiad gyda'm cyn bartner.

### Beth wnaeth Gorwel i helpu?

I ddechrau, fe wnaethant gysylltu ag egluro'r hyn y gallent ei wneud i helpu. Fe wnaethant fy niweddaru am yr hyn oedd yn digwydd gyda'r heddlu. Pan ryddhawyd fy nghyn bartner o'r ddalfa fe wnaethant fy helpu i deimlo'n ddiogel yn fy nghartref – fe wnaethant drefnu botymau panig yn y tŷ ac un ar fy allweddi. Gosodwyd rhwystrau drws yn y tŷ hefyd. Roedd fy nheledu wedi cael ei falu gan fy nghyn bartner ac fe drefnwyd i mi gael un arall. Nid oedd gennyf unrhyw arian na bwyd ac fe wnaethant fy rhoi mewn cysylltiad â banc bwyd a chael taliad brys imi fel y gallwn roi tanwydd yn y car i gyrraedd y gwaith. Fe wnaethant hefyd fy nghefnogi gyda fy iechyd meddwl ac rwyf newydd ddechrau'r Rhaglen Rhyddid hefyd.

Rhywbeth a oedd yn bwysig iawn oedd fy mod yn dal yn y berthynas ond fe wnaethant fy helpu i feddwl am oblygiadau tymor hir hynny a beth allai ddigwydd pe bawn i'n aros. Ychydig wythnosau yn ôl cefais y nerth i ysgrifennu'r holl ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd a'u riportio i'r heddlu. Nid wyf yn credu y byddwn wedi teimlo'n ddigon diogel nac yn ddigon cryf i wneud hynny cyn cael cefnogaeth Gorwel.

### Beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol?

Rwyf newydd orffen fy mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol ac wedi cael swydd fel Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl. Rwyf am orffen fy ngradd ac yna efallai gwneud gradd Meistr. Rwy'n astudio troseddeg. Yn y pen draw, hoffwn i fod yn dditectif neu weithio ym maes fforensig.

### Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth unrhyw un arall sy'n mynd drwy amser anodd ac ystyried cysylltu?

Ewch amdani! Os ydych chi'n cael cynnig help, cymerwch o. Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd ymddiried mewn pobl ac yn enwedig pobl mewn awdurdod oherwydd profiadau yn y gorffennol ond mae Gorwel yn hollol wahanol. Hyd yn oed os ydych chi wedi cael eich siomi o'r blaen, byddwn i'n dweud y gallwch chi ymddiried yn Gorwel, maen nhw'n debycach i ffrindiau.

# Adnoddau Dynol

## Recriwtio

Yn ystod y flwyddyn aeth proses recriwtio Grŵp Cynefin trwy ymarfer Lean, sef edrych ar effeithiolrwydd y broses a sut gellid gwella. O ganlyniad, datblygwyd system People HR ymhellach i gynnwys system tracio ymgeiswyr. Mae hysbysebu effeithiol ar ein gwefan drwy Indeed a Glassdoor, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ymgeisio am swyddi.




Yn ogystal, bywiogwyd ein delwedd wrth hysbysebu, ac ail-wampio edrychiad a chynnwys ein pecynnau ymgeisio. Mae hyn wedi arwain ar waith cyfredol i hyrwyddo'r buddion mae'r cwmni yn ei gynnig a hyrwyddo ein hunain fel cyflogwyr penigamp.



## Holiadur Pwls

Bu'r adran Adnoddau Dynol yn cadw golwg ar farn ac ymdeimlad staff trwy holiaduron pwls rheolaidd.

Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi i staff.

## Buddsoddwyr Mewn Pobl

Roedd yn destun balchder i'r grŵp eto eleni i fod wedi cynnal ein safon a chadw'n statws Arian mewn Buddsoddwyr Mewn Pobl.

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Silver



## Talu Ymlaen

Anogwyd staff hefyd i fanteisio ar gynllun Talu Ymlaen, sef yr hawl i roi hanner diwrnod y flwyddyn o amser gwaith ar gyfer achos da neu elusen. Un a fanteisiodd ar hyn oedd Hawys Roberts, Swyddog Marchnata'r grŵp, a roddodd hanner diwrnod i wneud gwaith gweinyddol a threfnu Eisteddfod leol Pwllglas.

# Hwyluswyr Tai Gwledig

Grŵp Cynefin sy'n gweinyddu cynllun Hwyluswyr Tai Gwledig, sy'n gweithio ar draws a chyda holl gymdeithasau tai Gogledd Cymru. Amcan eu gwaith yw datblygu a chynnal y cysylltiadau â chymunedau gwledig er mwyn codi ymwybyddiaeth a nodi'r angen am dai fforddiadwy.

Mae sawl cymuned wledig wedi gweld budd o wasanaeth yr HTG ac wedi cymryd perchnogaeth o'r gwaith er mwyn cynorthwyo eu cymunedau. Bu 2022-23 yn flwyddyn arall brysur, gyda diffyg tai gwledig yn bwnc llosg a gwaith yr hwyluswyr yn bwysicach nag erioed.

Mae'r hwyluswyr yn falch o fod yn cydweithio gydag uwch swyddog yn ardal peilot Dwyfor gyda lle amlwg i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhelir yn y gymuned o gylch y sefyllfa dai. Mae'r hwyluswyr yn gallu cynnig cyngor a phrofiad yn yr union faes, gyda chydweithio rhwydd.

Ar gyfer Grŵp Cynefin yn benodol, bu'r hwyluswyr yn allweddol ers y dechrau yn natblygiad 45 o gartrefi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys 17 uned ym Methesda, 24 ym Mhenygroes a 4 uned yn Waunfawr.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, bu'r hwyluswyr yn gweithio gyda Menter Y Plu, sy'n awyddus i ddatblygu'r dafarn leol, ac uned gyfagos yn gartref i bobl leol. Trefnwyd arolwg anghenion tai ar eu rhan a diwrnod agored. Roedd yr ymateb i'r arolwg ar-lein a'r diwrnod agored yn bositif iawn ac mae'r hwyluswyr yn falch o'r cyfle i gefnogi mentrau cymunedol, gan obeithio gwneud mwy o hyn yn y dyfodol.



# Tai Teg

TAITEG
CYSYLLTU POBL GYDA CHYFLEON TAI
CONNECTING PEOPLE WITH HOUSING OPPORTUNITIES

Partneriaeth yw Tai Teg gyda nod o ddarparu cartrefi fforddiadwy i bobl nad ydynt yn gymwys i gael tai cymdeithasol a/ neu sy'n methu â phrynu neu rentu ar y farchnad agored. Grŵp Cynefin sy'n gweinyddi'r bartneriaeth, sy'n gweithio gyda chymdeithasau tai eraill yn ardal weithredol Grŵp Cynefin.

Mae'r tîm wedi bod yn brysur gydol y flwyddyn yn asesu ymgeiswyr ac yn cadw at y targedau a osodwyd gan eu partneriaid. Elfen bwysig o'r gwaith yw diweddaru gwybodaeth yn barhaus, gwaith sy'n hanfodol i sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir ar y gofrestr ac yn barod i wneud cais am eiddo.

Dros gyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2023 enwebwyd 367 o ymgeiswyr ar gyfer cartrefi trwy gofrestr Tai Teg.

Meddai Catrin Roberts, Rheolwr Tai Teg a Hwyluswyr Tai Gwledig: "Eleni, roedd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaethpwyd yn waith sylweddol, oedd angen llawer o dystiolaeth. O ganlyniad iddo, mae ein meini prawf cymhwyso wedi cael ei addasu. Y gwaith nesaf fydd gweithio ar wefan newydd. Hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth dros 2022-23. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth i ddatblygu Tai Teg a darparu amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy a chyfrannu at ddod ag unedau fforddiadwy i ardaloedd gwledig trwy wasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig."

# Datblygiadau

## Llety'r Adar, Bethesda




Cwblhawyd datblygiad Llety'r Adar ym Methesda ym mis Hydref 2022. Mae bellach yn fwrlwm o fywyd, gyda'r 17 eiddo yn gartrefi i denantiaid amrywiol. Gweithiodd Grŵp Cynefin yn agos gyda'r gymuned leol, trwy wasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig y grŵp, i ofalu bod y datblygiad yn ymateb i'r union anghenion lleol.

Mae'r stad yn werth ei gweld, a'r adeiladwyr GM Construction, wedi ennill tair gwobr yn ddiweddar am ddatblygiad tai gorau Gwynedd, gorau Gogledd Cymru a rheolwr prosiect gorau. Mae'r tenantiaid hefyd yn rhoi sêl bendith ac yn hapus iawn yn eu cartrefi newydd.

Meddai Sian, un o denantiaid Llety'r Adar: "'Dan ni'n codi bob bore a mae'n teimlo fel bod ni mewn hotel! Ma' hi'n lyfli yma a 'dan ni wedi dod i nabod pawb. 'Da ni'n hapus iawn yma a mor lwcus o Grŵp Cynefin."





## Gerddi Bach, Waunfawr

Gerddi Bach yn Waunfawr ydi datblygiad diweddaraf Grŵp Cynefin i gael ei gwblhau, ym mis Ebrill eleni.

Eto, roedd yn ddatblygiad a ddarparwyd i ymateb i angen lleol y pentref, sef stad newydd gyda phedwar eiddo tair llofft.

"Mae'n deimlad braf pan fyddwn ni'n cwblhau datblygiad gan wybod ein bod yn darparu cartrefi newydd o safon i bobl leol yr ardal" meddai Gwyndaf Williams, Rheolwr Datblygu Grŵp Cynefin yn y gorllewin. "Gobeithio bydd y trigolion yn hapus iawn yn eu cartrefi newydd."



## Trem Engan, Penygroes

Ym mis Tachwedd 2022 cwblhawyd datblygiad Trem Engan - 24 eiddo rhent fforddiadwy newydd ym Mhenygroes.

Mae'r cynllun yn rhan o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru i ddarparu 113 tŷ carbon isel yn Ynys Môn a Gwynedd.



Bu cymdeithas tenantiaid TPAS Cymru yn ymweld â'r safle, gan roi canmoliaeth uchel iddo ar eu cyfryngau cymdeithasol. Dyma oedd ganddynt i'w ddweud;

"Mae pob eiddo â Gradd EPC A – sy'n golygu eu bod yn hynod o ynni-effeithlon ac yn golygu biliau is i'r tenantiaid.

"Mae Grŵp Cynefin wedi ychwanegu pethau gwych fel pwyntiau gwefru ceir ar gyfer yr holl gartrefi, gan ddefnyddio teils solar yn lle paneli fel na all adar ac anifeiliaid eraill fynd oddi tanynt.

"Roedd y cartrefi yn hyfryd ac yn gynnes y tu mewn."



## Llys Awelon, Rhuthun

Dechreuodd y gwaith ar ailddatblygu'r cynllun tai gofal ychwanegol presennol yn llwyr i greu cynllun modern, carbon isel, pwrpasol i gwrdd ag anghenion pobl hŷn yn ardal Sir Ddinbych.

Bydd yn cynnig 35 o fflatiau un a dwy ystafell wely yn ychwanegol i'r 21 fflat presennol, o fewn adeilad pwrpasol gydag ardaloedd cymunedol megis gerddi, lolfeydd, bwyty a salon trin gwallt.

Disgwylir i'r datblygiad fod yn barod ganol 2024.

## Rhewl Fawr, Penyffordd

Bu'r gwaith ar y stad hon yn parhau gydol y flwyddyn, i gwblhau'r cynllun yn haf 2023 a fydd yn cynnig tai rhent o safon i bobol leol Penyffordd. Bydd y cynllun yn cynnig cyfuniad o dai cynllun rhent cymdeithasol, chwech o rheiny, a dau dy rhent canolraddol. Bydd yr wyth tŷ yma yn cynnig cartrefi cynaliadwy ac ynni isel ac yn gyfuniad o dai dwy a thair llofft.



## Canolfan Lleu

Bu gwaith allweddol yn cael ei wneud ar gynllun uchelgeisiol Canolfan Lleu, sy'n bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Theatr Bara Caws.

Rhyddhawyd Dogfen Weledigaeth Canolfan Lleu ym Mawrth 2022, sef dogfen sylweddol oedd yn ganlyniad i flynyddoedd o waith ymgynghori i ddeall anghenion a dyheadau cymunedau'r dyffryn, datblygu'r achos busnes a sut gall y partneriaid a chyfranogwyr weithio gyda'i gilydd.

Bu cyfleoedd cyflwyno gwybodaeth ac ymgynghori dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau cefnogaeth leol sy'n allweddol i wireddu'r cynlluniau ar gyfer canolfan llesiant arloesol yng nghanol Penygroes, er lles cymunedau Dyffryn Nantlle i gyd.

Yn gryno, nod Canolfan Lleu yw;

- cryfhau cymunedau ar draws Dyffryn Nantlle
- cefnogi iechyd a lles pobl trwy gynnig gwasanaethau iechyd traddodiadol ac ataliol gan gynnwys meddygfa
- creu lle i gymdeithasu a chysylltu pobol gyda'i gilydd gan gynnwys swyddfeydd a theatr
- cryfhau'r economi leol

O'i gwireddu y gobaith yw y bydd Canolfan Lleu yn gwthio ffiniau ac yn ysbrydoli cymunedau eraill Cymru i fynd ati i weithredu gyda'r un ysbryd.

Derbyniodd y cynllun hwb cadarnhaol wrth i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Achos Strategol Amlinellol £1.2miliwn i gefnogi'r cynllun busnes yn 23/24.

# Ein Perfformiad

Canran y tenantiaid sy'n fodlon, neu'n fodlon iawn, â'r gwasanaethau a ddarperir gan Grŵp Cynefin

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 85% | 88% |

Nifer y galwadau a atebwyd gan Cyswllt Cynefin, ein canolfan gwasanaeth cwsmer

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 40,715 | 39,793 |

Nifer y staff a gyflogir

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 267 | 290 |

Y nifer a gyflogir gan Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 43 | 44 |

Nifer o ddyddiau i osod eiddo

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 34 | 23 |

Nifer yr eiddo wedi'u gosod i denantiaid

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 319 | 345 |

Canran ein cartrefi a basiodd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 100% | 100% |

Enillion ariannol i'n tenantiaid trwy gyfrwng ein Tîm Lles

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| £1,001,820.41 | £1,243,504 |

Canran y gwaith trwsio brys a gwblhawyd cyn pen 24 awr

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 98% | 99% |

Cost cyfartalog gwaith trwsio

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| £150 | £170 |

Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gefnogwyd gan wasanaethau cam-drin domestig ac atal digartrefedd

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 2025 | 1992 |

Canran y tenantiaid sydd wedi bod gyda ni am fwy na 10 mlynedd

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 43% | 43% |

Canran ein heiddo sy'n cynnwys nwy a gafodd archwiliad blynyddol erbyn y dyddiad penodol

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 99.9% | 99.9% |

Canran y colledion rhent oherwydd ôl-ddyledion rhent

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 2.17% | 2.59% |

Nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 405 | 403 |

Nifer y ceisiadau am waith trwsio

| 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|
| 14,443 | 15,869 |

# Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin



## Bwrdd Rheoli

Carys Edwards (Cadeirydd)
Elen Williams (is-Gadeirydd)
Mike Corfield
Geraint George
Tony Jones
Dafydd Lewis
Jane Lewis
Nigel Finney
David Lloyd
Llinos Iorwerth
Siôn Fôn
Lesley Singleton

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mike Corfield (Cadeirydd)
Geraint George (is-Gadeirydd)
Tony Jones
Siôn Fôn
Tim Jones (cynrychiolydd Bwrdd Canllaw)
Gwenan Carrington (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

## Pwyllgor Gorwel

Dafydd Lewis (Cadeirydd)
Lesley Singleton (Is-Gadeirydd)
Nigel Finney
Caroline Hughes (aelod annibynnol)

## Pwyllgor Cyllid a Thwf

Jane Lewis (Cadeirydd)
Tony Jones (is-Gadeirydd)
Dafydd Lewis
Elen Williams
Siôn Fôn
Paul Quirk (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

## Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Llywodraethu

Elen Williams (Cadeirydd)
Mike Corfield
Jane Lewis
Llinos Iorwerth
Dafydd Lewis
Tim Jones (Cadeirydd Bwrdd Canllaw)
Gwynne Jones (Cadeirydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

## Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau

Llinos Iorwerth (Cadeirydd)
Chris Schoen (is-Gadeirydd)
David Lloyd
Carys Edwards
Trudy Edwards
Bob Jones
Siaron Jones
Garry Knight
Janet Milligan
Ianto Roberts

# Cyllid

## Gwerth am Arian

Mae 82 % o denantiaid yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian, o'i gymharu â 79 % yn y flwyddyn flaenorol.

Cefnogodd y Wardeiniaid Ynni 1104 o geisiadau am y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, gan arwain at arbedion o £165,600 i'n tenantiaid, o'i gymharu â £134,260 yn y flwyddyn flaenorol.

Creodd y prosiect Mentrau Cymunedol Going it Alone werth £108,459 o werth cymdeithasol, am bob £1 a fuddsoddwyd, dychwelwyd £2.75.

## Incwm £'000







| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti | 21,810 | 64% | 20,624 | 66 % |
| Amorteiddio grant cyfalaf | 2,679 | 8% | 2,493 | 8 % |
| Gorwel | 2,539 | 7% | 2,465 | 8 % |
| Tal Gwasanaeth | 1,931 | 6% | 1,469 | 5 % |
| Prosiectau eraill | 1,691 | 5% | 1,328 | 4 % |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,501 | 5% | 1,301 | 4 % |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,211 | 4% | 1,134 | 4 % |
| Gwerthiannau eiddo | 387 | 1% | 472 | 1 % |
| Arall | 109 | 0% | 22 | 0 % |
| **Cyfanswm** | **33,858** | **100%** | **31,308** | **100%** |

## Gwariant £'000






| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a chadw'r stoc tai | 10,156 | 32% | 9,736 | 33 % |
| Costau staffio | 5,813 | 18% | 5,261 | 18 % |
| Llog Morgais | 4,151 | 13% | 4,037 | 14 % |
| Dibrisiant ac amhariad y stoc dai | 3,998 | 12% | 3,594 | 12 % |
| Prosiectau eraill | 3,283 | 10% | 2,956 | 10 % |
| Arall | 2,279 | 7% | 1,891 | 6 % |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,395 | 4% | 1,131 | 4 % |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,127 | 4% | 1,042 | 3 % |
| Gwerthiannau eiddo | 0 | 0% | 0 | 0 % |
| **Cyfanswm** | **32,201** | **100%** | **29,648** | **100%** |



**Grŵp Cynefin**

**Mwy na thai • More than housing**

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol ddulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 o dan rif 21194R ac mae'n gymdeithas dai elusennol sydd wedi'i chofrestru â Llywodraeth Cymru o dan y rhif LO29